ATODLEN 2

Rheoliad 2(2)

Safonau llunio polisi

# RHAN 1

## Y SAFONAU

| | |
|---|---|
| **1** | **Safonau ynghylch ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir gan gorff ar y Gymraeg** |
| **Safon 69:** | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| **Safon 70:** | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| **Safon 71:** | Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| **Safon 72:** | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| **Safon 73:** | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |
| **Safon 74:** | Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—<br>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |

**Safon 75:** Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar—
(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Safon 76:** Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—
(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Safon 77:** Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—
(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Safon 78:** Rhaid ichi gyhoeddi polisi ar ddarparu gwasanaeth gofal sylfaenol sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y canlynol pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â darparu gwasanaeth gofal sylfaenol—
(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai'r penderfyniad yn eu cael ar—
  (i) cyfleoedd i bersonau i ddefnyddio'r Gymraeg, a
  (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
(b) sut y gellid gwneud neu weithredu'r penderfyniad hwnnw fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—
  (i) cyfleoedd i bersonau i ddefnyddio'r Gymraeg, a
  (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; ac
(c) sut y gellid gwneud neu weithredu'r penderfyniad fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar—
  (i) cyfleoedd i bersonau i ddefnyddio'r Gymraeg, a
  (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Safon 78A:** Pan ddaw 5 mlynedd ar ôl cyhoeddi'r polisi i ben yn unol â safon 78 (pa un a yw diwygiadau wedi eu gwneud i'r polisi hwnnw ai peidio) a phan ddaw pob cyfnod dilynol o 5 mlynedd i ben, rhaid ichi—
(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi cydymffurfio â'r polisi; a
(b) cyhoeddi'r asesiad hwnnw ar eich gwefan o fewn 6 mis i ddiwedd y cyfnod.

## RHAN 2

### SAFONAU SY'N DDIBYNNOL AR SAFONAU ERAILL – AMODAU ARBENNIG

**2** Pan fydd hysbysiad cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un o'r safonau a restrir ar res benodol yng ngholofn 1 o Dabl 1,

rhaid i'r hysbysiad cydymffurfio hwnnw hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r corff hwnnw gydymffurfio (ym mha fodd bynnag y gwêl Comisiynydd y Gymraeg yn briodol) â'r safon neu'r safonau a restrir ar y rhes honno yng ngholofn 2.

**TABL 1**

| *Rhes* | *Colofn 1* *Prif safon* | *Colofn 1* *Safon ddibynnol* |
|---|---|---|
| (1) | **Polisi ar wasanaethau gofal sylfaenol** | |
| | Safon 78A | Safon 78 |

# RHAN 3

## DEHONGLI'R SAFONAU

**3** Yn Rhan 1 o'r Atodlen hon, ystyr "penderfyniad polisi" yw unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall, ac mae hynny'n cynnwys, ymysg pethau eraill (ac fel y bo'n briodol i'r corff), penderfyniadau ynghylch—

(a) arfer pwerau statudol;

(b) cynnwys datganiadau polisi;

(c) strategaethau neu gynlluniau strategol;

(ch) strwythurau mewnol a lleoliadau mangreoedd; neu

(d) recriwtio neu ddefnyddio gwirfoddolwyr.

**4** Yn Rhan 1 o'r Atodlen hon, mae cyfeiriad at effeithiau positif neu effeithiau andwyol yn gyfeiriad at yr effeithiau hynny pa un ai ydynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

**5** Nid yw safonau 75 i 77 yn gymwys i'r graddau y mae'r ymchwil a gomisiynir neu yr ymgymerir â hi yn ymchwil feddygol neu'n ymwneud ag ymchwil feddygol.